# <u>Polisi Rheoli Moddion</u>

**Ysgol Llanbedrog**

***Dyddiad Cymeradwyo:*** 30/11/20

***Dyddiad Adolygu:*** Tymor yr Hydref 2025

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Alaw Ceris

**Dyddiad:** 23/10/23

## 1. Darparu Meddyginiaeth

Dylid annog rhieni ofyn i'w meddyg teulu a ydyw'n bosibl amseru'r dognau o feddyginiaeth i'w cymryd tu allan i oriau arferol ysgol. Lle bynnag y bo modd, dylai rhieni disgyblion sydd angen meddyginiaeth yn ystod oriau ysgol fynychu'r ysgol i ddarparu'r feddyginiaeth i'w plant.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth corff llywodraethol yr ysgol, yn cytuno i ddarparu meddyginiaethau yn yr ysgol.

1.1 Mae unrhyw aelod o staff sy'n cytuno i ddarparu meddyginiaeth i ddisgyblion yn gwneud hynny ar sail wirfoddol.

1.2 Rhaid i staff sy'n gwirfoddoli i ddarparu meddyginiaeth dderbyn yr hyfforddiant cywir cyn cael caniatâd i roi meddyginiaeth i unrhyw ddisgybl.

1.3 Rhaid i ysgol dderbyn ffurflen wedi ei chwblhau gan rieni'r disgyblion yn gofyn am i'r ysgol ddarparu'r feddyginiaeth yn ystod oriau'r Ysgol (Atodiad 1).

1.4 Mae'n angenrheidiol i'r pennaeth gytuno'n ffurfiol â'r cais cyn y rhoddir unrhyw feddyginiaeth (Atodiad 2)

1.5 Rhaid i staff sy'n rhoi meddyginiaeth i ddisgyblion gofnodi'r holl fanylion ar ffurflen 'Darparu Meddyginiaeth' yr Ysgol (Atodiad 3)

1.6 Rhaid hysbysu'r rhiant o unrhyw sgîl-effeithiau anffafriol a ddioddefodd y disgybl yn dilyn cymryd y feddyginiaeth (un ai yn syth, neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y sefyllfa).

1.7 Os yw'r disgybl yn gwrthod cymryd ei feddyginiaeth, ni ddylid ei orfodi i wneud hynny. Rhaid hysbysu'r rhieni os yw disgybl yn gwrthod cymryd meddyginiaeth. Os yw disgybl yn gwrthod meddyginiaeth mewn sefyllfa o argyfwng (e.e. pigiad adrenalin mewn achos o anaffylacsis), rhaid cael cymorth meddygol proffesiynol a hysbysu'r rhieni yn syth.

1.8 Dylai staff wneud eu gorau i sicrhau y caiff preifatrwydd a balchder y disgybl eu hamddiffyn, hyd yn oed mewn sefyllfa o argyfwng.

1.9 Os oes angen triniaeth bersonol neu ymyrgar ar ddisgybl, dylai dau aelod o staff fod yn bresennol; rhaid i un fod o'r un rhyw â'r disgybl.

## 2. Cadw Meddyginiaeth

Lle bynnag y bo modd, dylid gofyn i rieni ddarparu'r ysgol gyda faint bynnag o feddyginiaeth sydd ei angen am y diwrnod ysgol yn unig, yn hytrach na dod â photel llawn ffisig neu botel llawn tabledi.

2.1 Ni fydd yr ysgol yn derbyn unrhyw feddyginiaeth nad yw yn ei chynhwysydd gwreiddiol.

2.2 Rhaid labelu pob meddyginiaeth yn eglur gydag enw a dosbarth y disgybl.

2.3 Heb law am anadlwyr asthma, meddyginiaethau sy'n rhaid eu cadw yn yr oergell a meddyginiaethau a all fod yn angenrheidiol mewn argyfwng, rhaid cadw pob meddyginiaeth arall mewn cabinet/cynhwysydd wedi ei gloi

2.4 Cyfrifoldeb y pennaeth yw sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o ble cedwir yr allwedd i'r cwpwrdd meddygol.

2.5 Rhaid storio unrhyw feddyginiaeth sydd angen ei chadw yn yr oergell yn ystafell yr athrawon. Rhaid cadw'r feddyginiaeth mewn cynhwysydd seliedig sydd wedi ei labelu'n eglur gydag enw a dosbarth y disgybl.

2.6 Caniateir i ddisgyblion y credir eu bod yn ddigon aeddfed i gymryd cyfrifoldeb am eu hanadlwr asthma ei gario gyda hwy cyn belled â bod cais ffurfiol wedi ei wneud gan y rhiant. (Atodiad 4)

2.7 Yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle, dylid cario unrhyw feddyginiaeth angenrheidiol gan yr aelod o staff sy'n gyfrifol am y gweithgaredd neu aelod o staff gyda hyfforddiant cymorth cyntaf. Dylai disgyblion all fod angen eu meddyginiaeth ar frys fod mewn grwp sy'n cael ei oruchwylio gan yr aelod o staff sy'n cario'r feddyginiaeth. Dylai disgyblion yr ystyrir eu bod yn ddigon cyfrifol i gymryd cyfrifoldeb am eu meddyginiaeth asthma gael caniatâd i'w chario gyda hwy cyn belled â bod cais ffurfiol wedi ei wneud gan y rhiant.

2.8 Ni ddylai staff fyth drosglwyddo meddyginiaeth o'i gynhwysydd gwreiddiol i gynhwysydd arall oni bai bod y cynhwysydd gwreiddiol wedi malu. Mewn achos o'r fath, dylid labelu'r cynhwysydd newydd yn eglur gyda'r holl wybodaeth a gaed ar label y cynhwysydd gwreiddiol. Rhaid hysbysu'r rhiant o unrhyw ddifrod i gynwysyddion.

2.9 Ni ddylai staff yr ysgol waredu unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei defnyddio. Dyma gyfrifoldeb y rhiant. Rhaid i'r rhiant gasglu unrhyw feddyginiaeth sydd heb ei defnyddio ar ddiwedd pob hanner tymor. Pe na bai'r rhieni yn gallu dod i'r ysgol, gallai'r nyrs ysgol gynorthwyo i gael gwared ag unrhyw feddyginiaeth heb ei defnyddio a adawyd yn yr ysgol. Os yw meddyginiaeth disgybl yn gorffen neu ei dyddiad yn terfynu, cyfrifoldeb y rhieni yw ei hailgyflenwi.

**Atodiad 1**

## CAIS I'R YSGOL ROI MEDDYGINIAETH

Ni fydd yr ysgol yn rhoi moddion i'ch plentyn oni bai eich bod yn cwblhau ac arwyddo'r ffurflen hon a bod y pennaeth yn cytuno y gall staff yr ysgol roi'r feddyginiaeth.

**MANYLION Y DISGYBL**

Cyfenw: ___________________________________________________________________
Enw(au) Cyntaf: ______________________________________________________________
Cyfeiriad: ________________________________________ G/B:______________________
__________________________________________Dyddiad Geni:_____________________
__________________________________________ Dosbarth/Blwyddyn:_______________

Cyflwr neu salwch: ____________________________________________________________

**MEDDYGINIAETH**

Enw/Math o Feddyginiaeth (fel ag a ddisgrifir ar y cynhwysydd): _______________________
Am faint fydd eich plentyn yn cymryd y feddyginiaeth hon: ___________________________
Dyddiad y paratowyd y feddyginiaeth: ___________________________________________

Cyfarwyddiadau Llawn i'w Defnyddio:
Dogn a dull:_________________________________________________________________
Amseriad: __________________________________________________________________
Rhagofalon Arbennig: _________________________________________________________
Sgîl-effeithiau: ______________________________________________________________
Hunan-weinyddu: ____________________________________________________________
Sut i weithredu mewn argyfwng: _______________________________________________
___________________________________________________________________________

**MANYLION CYSWLLT**

Enw: ____________________________________ Rhif ffôn dydd: ______________________
Perthynas â'r Disgybl: _________________________________________________________
Cyfeiriad: __________________________________________________________________
___________________________________________________________________________
___________________________________________________________________________
Deallaf bod yn rhaid i mi ddanfon y moddion yn bersonol (i aelod cytunedig o staff) a derbyniaf fod hwn yn wasanaeth nad oes rheidrwydd ar yr ysgol i'w ysgwyddo.

Dyddiad: _____________________________ Llofnod(ion): ___________________________
Perthynas â'r Disgybl: __________________________
**Atodiad 2**

## TREFNIANT I ROI MEDDYGINIAETH

Cytunaf y bydd: ____________________________ (enw'r disgybl)

yn derbyn _______________________ (faint o ac enw'r feddyginiaeth)

bob dydd am ______________________(amser rhoi'r feddyginiaeth, e.e. amser cinio).

Bydd: _____________________________ (enw'r disgybl)

yn derbyn/yn cael ei g/oruchwylio tra bydd yn cymryd ei m/feddyginiaeth gan

__________________________________________ (enw'r aelod o staff)

Bydd y trefniant hwn yn parhau hyd: __________________________________________

(un ai dyddiad terfynu’r cwrs o feddyginiaeth neu hyd nes rhoddir cyfarwyddyd gan y rhieni).

Arwyddwyd (Pennaeth/Aelod Dynodedig o Staff):

____________________________________________

Dyddiad: _________________________________

(un ai dyddiad terfynu’r cwrs o feddyginiaeth neu hyd nes rhoddir cyfarwyddyd gan y rhieni).

Arwyddwyd (Pennaeth/Aelod Dynodedig o Staff): _____________________________________

Dyddiad: ___________________

**Atodiad 3**

## COFNOD O FEDDYGINIAETH A RODDWYD YN YR YSGOL

Enw'r Ysgol: ___________________________________________

| Dyddiad | Enw'r Disgybl | Amser | Enw'r Feddyginiaeth | Dogn a Roddwyd | Unrhyw Adweithiau | Llofnod Staff | Printiwch eich Enw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |
| | | | | | | | |

## Atodiad 4

## CAIS I'R DISGYBL GAEL CARIO EI FEDDYGINIAETH/MEDDYGINIAETH ASTHMA EI HUNAN

Rhaid cwblhau'r ffurflen hon gan y rhieni/gwarcheidwad.

Enw'r Disgybl: ______________________________ Dosbarth/Blwyddyn:_______

Cyfeiriad: _______________________________________________________________
_______________________________________________________________________
_______________________________________________________________________

Cyflwr neu salwch: ______________________________________________________
_______________________________________________________________________
_______________________________________________________________________

Enw'r Feddyginiaeth: ____________________________________________________

Trefn i'w dilyn mewn Argyfwng: __________________________________________
_______________________________________________________________________
_______________________________________________________________________

_______________________________________________________________________

GWYBODAETH GYSWLLT

Enw: ____________________________________________________________________

Rhif ffôn dydd: __________________________________________________________

Perthynas â'r plentyn: ____________________________________________________

Dymunaf i'm mab/merch gadw ei feddyginiaeth/meddyginiaeth gydag ef/gyda hi i'w defnyddio fel bo'r angen. Derbyniaf gyfrifoldeb llawn am unrhyw golled neu gamddefnydd o'r feddyginiaeth.

Arwyddwyd: _______________________________ Dyddiad: ___________________

Perthynas â'r Plentyn: _______________________________________________